**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/2184/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

11 Medi 2025

Annwyl Gadeirydd,

**Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 a Rhan 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Cod drafft") SL(6)617**

Yn unol ag adran 146(2) o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, ar 3 Mehefin 2025, gosodais y Cod drafft gerbron y Senedd. Ar 27 Mehefin 2025, tynnwyd y Cod drafft yn ôl mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor hwn ar y Cod drafft, er mwyn caniatáu digon o amser i'r materion perthnasol gael eu hystyried yn ofalus ac i baratoi drafft wedi'i gywiro ymhellach i'w ailosod gerbron y Senedd.

Yn ei hymateb i'r Pwyllgor, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod mai'r bwriad oedd ailosod Cod diwygiedig drafft ym mis Medi 2025.

Roedd un o'r pwyntiau craffu a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ymgynghori, gydag ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi: *"... nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn addas ymgynghori ag unrhyw bersonau ar yr achlysur hwn o ystyried y graddau y mae'r cynnig yn ceisio diwygio'r Cod presennol."*

Ers hynny, rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r gofynion statudol perthnasol sy'n ymwneud ag ymgynghori, ac rwyf nawr yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar y Cod drafft diwygiedig cyn ei ail-osod.

Bydd yr ymgynghoriad yn gymesur i'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i'r cod, gyda llythyr yn cael ei anfon gan y Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol i'r 22 awdurdod lleol gan gynnwys drafft o'r Cod diwygiedig yn y ddwy iaith. Yna, bydd Cod diwygiedig yn cael ei ailosod yn nes ymlaen ym mis Hydref 2025.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care